

Medrwn Môn yn dymuno yn dda i Derlwyn wrth iddo ymddeol!



Ar ôl 25 mlynedd yn gweithio i Medrwn Môn, mae Derlwyn Hughes yn ymddeol fel ein Swyddog Cyllid a Gwybodaeth. Mae Derlwyn wedi bod yn aelod hollbwysig o'r tîm ac fe gaiff ei golli'n fawr yn ei rôl. Mae ei ymddeoliad yn marc diwedd gyrfa a ymroddwyd i wneud gwahaniaeth mewn bywydau pobl, cyfrannu at achosion cymdeithasol ac wedyn cefnogi mentrau cymunedol. Dywedodd **"Mae gen i lawer o atgofion hyfryd o fy amser ym Medrwn Môn, a byddaf yn colli gweithio gyda staff a chydweithwyr gwyh sydd wedi gadael dros y blynyddoedd. Dechreuais weithio ar y 1af Ebrill, 2000, a hoffwn ddiolch i'r staff a gwirfoddolwyr am eich cefnogaeth a charedigrwyd dros 25 mlynedd bendigedig"**.

Yn ystod ei gyfnod fel Swyddog Cyllido a Gwybodaeth, mae Derlwyn wedi rhoi arweiniad amhrisiadwy i grwpiau a sefydliadau cymunedol ar sut i ddatblygu eu prosiectau, paratoi a chyflwyno ceisiadau am gyllid (**cefnogwyd dros £2.75 miliwn o grantiau rhwng 2023-2025**) a rhedeg y prosiectau hynny'n effeithiol drwy sicrhau bod ganddynt yr holl bolisiâu cywir ar waith, mynediad at hyfforddiant ac yn gallu monitro ac adrodd am fanteision y cynlluniau hynny. Mae Derlwyn wedi cadeirio a hwyluso nifer o baneli cronfeydd allweddol, gan ddosbarthu grantiau i gymunedau. Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r paneli hynny wedi cefnogi gwerth dros £572,000 o grantiau i grwpiau cymunedol ar Ynys Môn!

Mae Hywel Lovgreen Swyddog Ariannu'r Loteri Genedlaethol wedi gweithio gyda Derlwyn ar nifer o geisiadau am grantiau, **"Mae Derlwyn yn hollol unigryw – yn adnabod pawb a bob amser gyda stori ddoniol i godi'ch calon. Bydd Medrwn yn le tlotach heb ei wyneb siriol"**.

Hoffai Bwrdd a staff Medrwn Môn ddymuno'r gorau i Derlwyn ar gyfer y dyfodol!



@medrwnmon



@medrwnmon

Ffôn: 01248 724944

Gwefan: www.medrwnmon.orgEbost: post@medrwnmon.org

Dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2025

INTERNATIONAL
WOMEN'S DAY
2025



Ar 4ydd o Fawrth, ymunodd ein Prif Swyddog â'r Prif Swyddogion o CGLISff (Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint) ac AVOW (Gymdeithas y Mudiadau Gwirfoddol yn Wrecsam) i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2025. Cynhaliwyd y digwyddiad gan Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd), Age Friendly Communities Denbighshire a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i dynnu sylw at y Cynllun Iechyd Merched Gogledd Cymru a chodi ymwybyddiaeth am Fis Endometriosis ynghyd â Diwrnod Rhyngwladol y Merched.

Cynhaliwyd y digwyddiad yn y Pafiliwn yn Rhyl, a daeth dros 400 o ymwelwyr at ei gilydd i ddathlu'r merched sy'n ysbrydoli cymaint ohonom o ddydd i ddydd. Ymhlith y siaradwyr eraill oedd Carol Shillabeer (Prif Weithredwr BCUBH) a Dr Helen Munro (Arweinydd Clinigol Cymru ar gyfer Iechyd Merched).

Gan gynnwys Medrwn Môn, cefnogodd dros 70 o sefydliadau partner y digwyddiad gyda stondinau gwybodaeth i gyflwyno a chodi ymwybyddiaeth o'r 8 blaenoriaeth o fewn Cynllun Iechyd Merched Cymru. Roedd ymwelwyr yn gallu ymweld â stondinau'n cynnig cyngor ar iechyd a lles merched, gan gynnwys cyngor ar menopos, heneiddio'n dda a rôl celfyddydau mewn iechyd. Roedd adborth y diwrnod yn cynnwys:

“Roedd hi'n wirioneddol addysgiadol a ysbrydoledig, gyda ffocws ar y materion go-iawn y mae merched yn eu hwynebu bob dydd. Crëwyd lle pwerus ar gyfer trafodaeth, myfyrdod a dysgu. Roedd y siaradwyr yn eithriadol o wybodus, ac nid yn unig oedd eu hwyrriad yn glir ond hefyd yn hynod ddiddorol.”



Comisiynydd Pobl Hŷn yn Ymweld â'r Ynys



Croesawyd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Rhian Bowen-Davies i Ynys Môn ar 26 Mawrth. Yn ystod yr ymweliad roedd cyfle i'r Comisiynydd gael blas ar y gwaith anhygoel sy'n digwydd ar draws yr Ynys i wneud Ynys Môn yn Ynys Oed Gyfeillgar. Roedd hyn yn cynnwys ymweliad â Hyb Cymunedol Gwelfor yng Nghaergybi lle cafodd y Comisiynydd gyfle i weld gwirfoddolwyr ac aelodau'r Mannau Cynnes, Hwb Dillad a Men's Shed. Cafwyd adloniant prynhawn gan 'Strings and Things!'



Tynnodd yr ymweliad sylw at gyfraniad amhrisiadwy gwirfoddolwyr a staff sy'n mynd yr ail filltir yn wythnosol, i geisio sicrhau bod trigolion Ynys Môn yn cynnal ansawdd bywyd uchel. Mae'r Comisiynydd wedi mynegi faint mae hi wedi mwynhau'r wythnos ac mae'n awyddus i ddychwelyd yn fuan.

“Roedd yn wych ymweld ag Ynys Môn i ddysgu mwy am yr ystod eang o fentrau sy'n cael eu darparu i helpu i wneud yr Ynys yn Oed Gyfeillgar ac sy'n cefnogi pobl i fyw a heneiddio'n dda. Ni fyddai'r weithred hon yn bosib heb egni a brwdfrydedd gwirfoddolwyr a staff, a hoffwn ddiolch iddynt i gyd am eu gwaith caled sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau cymaint o bobl hŷn.”



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol

Gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Andy Dunbobbinn

Croesawodd Medrwn Môn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Andy Dunbobbinn i ddigwyddiad rhwydwaith y chwarter hwn, oedd yn canolbwyntio ar ddiogelwch cymunedol yn ein cymunedau ar Ynys Môn, a siaradodd am bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i sicrhau atebion hirdymor i droseddau.

Rhoddodd y rhwydwaith gyfle i aelodau'r gymuned ofyn cwestiynau i'r Comisiynydd Troseddau am unrhyw bryderon trosedd a diogelwch cymunedol sydd ganddynt, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau ieuencid, a chyllid.

Roedd y sesiwn hefyd yn hyrwyddo llofnodi'r compact rhwng yr Heddlu a'r Trydydd sector, gan ddathlu cryfderau gweithio mewn partneriaeth i liniaru trosedd a gwella diogelwch yn ein cymunedau.

Ewch i wefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd;

www.northwales-pcc.gov.uk/third-sector i ddysgu mwy am y compact.

Roeddem hefyd yn falch o groesawu Sara, siaradwr gwadd o Edge Inclusion, a roddodd gyflwyniad gwych ar ddiogelwch cymunedol trwy ymyrraeth gynnar gan ddefnyddio gweithdai Mind Mechanics fel offeryn.



Medrwn Môn yn arwyddo'r Siarter Teithio Llesol



Mae Medrwn Môn yn falch, ynghyd â 6 aelod arall o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, o fod wedi cyd-lofnodi'r Siarter Teithio Llesol ar ddydd Iau, 13eg Mawrth yng Nghanolfan Busnes Ynys Môn, Llangefni ym mhresenoldeb Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru. Dyma'r cam cyntaf ar y daith, a bydd partneriaid yn cydweithio ar y 15 cam nesaf!



Mae sefydliadau ledled Cymru yn dangos eu hymrwymiad i ddulliau trafndiaeth llesol a mwy cynaliadwy, drwy lofnodi Siarter Teithio Llesol yn gyhoeddus. Mae pob Siarter yn cynnwys cyfres o ymrwymadau y bydd y sefydliad yn eu gwneud dros 2 neu 3 blynedd i gefnogi eu staff ac ymwelwyr i gerdded a beicio mwy, defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, a newid i gerbydau tydan.



Dywedodd yr Athro Andrew Edwards, Dirprwy Is-ganghellor, Prifysgol Bangor a Chadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn: **“Mae camau enfawr wedi'u cymryd gan y sefydliadau sydd yma heddiw i lofnodi, a chyd-lofnodi'r Siarter Teithio Llesol i wreiddio teithio llesol a'i gwneud yn haws i staff gymryd y camau bach i newid i gerdded, beicio a Chludiant Cyhoeddus ar gyfer teithio sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn ffodus i gael Is-grŵp Siarter Teithio Llesol rhagweithiol a chefnogol sy'n gefnogol i'w gilydd, sef y sefydliadau sydd yma heddiw, i gyrraedd y garreg filltir arwyddocaol hon o arwyddo'r Siarter”.**



Swyddfa newydd, yn hybu lles staff



‘Dani wedi symud - a ‘dani’n teimlo'n dda!

Rydyn ni i gyd wedi setlo yn ein swyddfa newydd yn Swît A, Canolfan Busnes Môn, Llangefni ac ni allai pethau fod wedi mynd yn fwy llyfn! Mae'r tîm wrth eu bodd â'r gofod newydd, ac rydym wedi gwneud yn siŵr fod o'n le y gallwn ni i gyd deimlo ar ein gorau.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae lles yn y gweithle wedi dod yn ffocws mawr i lawer o gwmnïau, ac roedden ni eisiau gwneud yr un peth. Dyna pam mai un o'n hoff ychwanegiadau newydd yw ein hystafell les - hafan fach lachar, awyrog lle gall unrhyw un alw i mewn i ymlacio, ailwefru, neu i gymryd anadl. P'un a ydych chi'n teimlo ychydig o straen, angen rhywfaint o amser tawel, neu dim ond awydd eiliad i ffwrdd o'r ddesg, dyma'r lle perffaith.

Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno cwpl o ddesgiau sefyll a pheiriant cerdded, ac maen nhw eisoes wedi bod yn boblogaidd! Mae cymaint o fanteision i gerdded wrth weithio (yn enwedig yn ystod galwadau Zoom!) - gwell osgo, llai o boen cefn, mwy o egni, a hyd yn oed hwb mewn hwyliau. Ers i ni symud, mae ein tîm wedi cerdded cymaint â 473 o filltiroedd a 79 milltir ar y peiriant cerdded yn unig. Sydd dim yn ddrwg o gwbwl?

Yn ystod amser cinio rydym yn annog i staff fynd am dro - ac rydym wrth ein bodd â'r awyr iach a'r symudiad yng nghanol y dydd. Mae'n anhygoel beth gall taith gerdded byr ei wneud.

O ran bwyta'n iach, rydym wedi stocio ffrwythau ffres yn ein powlen ffrwythau newydd (er ein bod ni'n dal yn hoff o fwyta ambell i deisen bob hyn a hyn, yn enwedig pan fydd ymwelwyr caredig yn dod â nhw i mewn!).

Wrth edrych i'r dyfodol, mae gennym ddiwrnodau lles llawn hwyl ar y gweill, gan gynnwys teithiau cerdded draw i Eglwys Gwyfan a rhai gweithgareddau awyr agored yng Nghoed Actif. Mae'n ymwneud â dod o hyd i'r cydbwysedd cywir a gwneud amser ar gyfer y pethau sy'n ein cadw ni'n hapus ac yn iach. Dyma i chi ddechrau o'r newydd, teimlo'n dda, a gofalu am ein gilydd - y tu mewn a'r tu allan i'r swyddfa!



Digwyddiad Diwrnod Presgripsiynu Cymdeithasol 2025



Mynychodd Awen ein Cydlynnydd Asedau Lleol, ddigwyddiad Presgripsiynu Cymdeithasol Gogledd Cymru yng Nghlwb Cymdeithasol Ewloe yn Sir Fflint ar ddydd Llun, 31 Mawrth 2025.



Roedd y digwyddiad hwn yn rhoi sylw ar werthuso - rhywbeth rydym yn angerddol iawn wrth i ni barhau i ddangos yr effaith wirioneddol y mae ein gwasanaethau yn ei chael ar iechyd a lles pobl.

Roedd heriau ariannu yn bwnc mawr arall ar y diwrnod, yn enwedig gyda'r heriau ariannol yr ydym i gyd yn eu hwynebu. Mae'r galw am ein gwasanaethau'n parhau i dyfu gyda chynnydd o 27% o gyfeiriadau y llynedd, ond mae cyllid yn mynd yn dynnach, gan wneud y sgysiau hyn yn bwysicach nag erioed.



Roedd yn wych clywed gan gymaint o leisiau gwahanol drwy gydol y dydd, i gyd yn helpu i lunio dealltwriaeth gyffredin o'r materion allweddol sy'n ymwneud â gwerthuso a chyllid. Cyflwynwyd fideo yn dangos un o'n cleientiaid ar y diwrnod, yn amlygu sut mae cael mynediad i'n gwasanaethau wedi effeithio'n gadarnhaol ar ei bywyd - mae hi bellach yn rhoi yn ôl trwy wirfoddoli yn ei chymuned.



Diolch enfawr i'n holl bartneriaid rhanbarthol am ddigwyddiad mor wych a chydweithredol! Gadewch i ni barhau i weithio gyda'n gilydd i wneud yn siŵr bod pawb yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

I ddysgu mwy am ein gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol a sut rydym yn cefnogi unigolion, edrychwch ar rai o'n straeon bywyd go iawn gan bobl sydd wedi gweithio gyda'n tîm ymroddedig. Cliciwch y ddolen i ddarllen mwy: [Cyswllt Cymunedol | Medrwn Môn](#)



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Cyngheiriau Cymunedol

Beth Sydd yn Mynd Ymlaen Yn Eich Ardal Chi?



Bodowyr - Mae'r prosiectau a gafodd fudd o'r cyllid cychwynnol wedi bod yn llwyddiannus! Mae Canolfan Brynsiencyn wedi prynu offer ar gyfer y clwb ffilm a sesiynau Bingo poblogaidd, mae unrhyw elw yn mynd tuag at driplau dydd i drigolion. Maent hefyd wedi cael byrddau a chadeiriau newydd yn y Neuadd.

Mae Llanddaniel wedi prynu mainc gymunedol newydd ac mae gan Ysgol Parc Y Bont offer awyr agored a fydd o fudd i ddisgyblion a thrigolion yr ardal. Mae'r maes chwarae Gaerwen wedi cael si-so newydd ac mae CELS wedi hwyluso gwersylloedd lles ar draws y ward i blant a phobl ifanc. Mae'r Gynghrair am symud ymlaen a mapio llwybrau cerdded a beicio, gan wneud cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus.

Bro'r Llynnoedd - Mae'r baner 'pop up' a gasebo yn barod! Mae Bro'r Llynnoedd yn frwd dros ddatblygu a hyrwyddo'r Gynghrair ac yn croesawu aelodau newydd. Bydd cynrychiolwyr yn y digwyddiadau canlynol yn y misoedd nesaf, diwrnod teulu'r RAF, sioe Ynys Môn a sioe gŵn Plas Llanfair. Galwch heibio i sgwrsio am sut y gallech chi gymryd rhan! Gallwch hefyd eu dilyn ar facebook @cynghrairBro'r Llynnoedd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfodydd a digwyddiadau.



Mae **Aethwy** yn gweithio'n galed i recriwtio mwy o aelodau! Ydych chi'n byw yn **Star, Llanfairpwll, Penmynydd neu Borthaethwy** a hoffech chi gymryd rhan? Mae'r Gynghrair wedi nodi blaenoriaethau o fewn y Ward ac yn edrych ar sut y gallant fynd i'r afael a chefnogi unrhyw faterion a phrosiectau a fydd o fudd i'r gymuned. Mae'r Gynghrair wedi dosbarthu cyllid cychwynnol i brosiectau lleol yr haf diwethaf gan gynnwys prosiectau fel CELS, Canolfan Gymunedol Rhyfel Porthaethwy a phrosiect Elusendai Penmynydd. Os ydych yn byw neu'n gweithio yn yr ardal ac eisiau cymryd rhan rhwng eich enw ar ein rhestr o gysylltiadau i dderbyn gwahoddiad i'r cyfarfod nesaf.

Ebostiwrch Ysgwrs@medrwnmon.org



Caergybi - bydd y cyfarfod nesaf yn **Neuadd y Dref, Caergybi ar 30/04/25 6pm**. Yn y cyfarfod byddwn yn clywed am brosiectau a elwodd o'r cyllid cychwynnol, gan gynnwys Cymdeithas Seryddiaeth Ynys Môn. **Bydd cyfle hefyd i chi glywed am y prosiectau adfywio canol tref arfaethedig a chynigion Creu Lleoedd trwy Gyngor Ynys Môn.**

Cynhaliodd **Cynghrair Seiriol** eu Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn Hen Ysgol Llanddona ar 19/03/25. Hoffai'r Hoffai'r Gynghrair ddiolch i'r aelodau ailetholedig a phawb sy'n cefnogi'r Gynghrair am y gwaith da y maent yn ei wneud. Bydd y Gynghrair yn cynnal ymgynghoriad yn yr ardal ynglŷn â'r defnydd o'r bws cymunedol sy'n eiddo i'r Gynghrair, a'r effeithiau yn dilyn y toriadau i wasanaethau bws yn lleol. Y nod yw cefnogi a chysylltu â thrafnidiaeth bresennol gwasanaethau yn yr ardal.



Crigyll - yn dilyn pryderon a godwyd am faterion traffig yn yr ardal, mae rhai aelodau o'r gynghrair wedi cwblhau sesiwn hyfforddi gwylio cyflymder gyda Heddlu Gogledd Cymru. Unwaith y bydd yr asesiad o'r ardaloedd sy'n peri pryder wedi'i gwblhau, byddant yn symud ymlaen â'r prosiect ac yn dechrau mesur cyflymder traffig trwy bentrefi yn y Ward. Diolch yn fawr i Gynghrair Bro'r Llynnoedd am rannu eu hoffer gyda Crigyll.



Bro Aberffraw- Bydd y Ffilm Cynllunio Lle yn cael ei chyflwyno i Gefnogi Trydydd Sector Cymru fel astudiaeth achos, er ein bod yn cydnabod bod gwaith parhaus eto i'w wneud o'r blaenoriaethau a nodwyd, roedd y prosiect yn gadarnhaol ac aeth y wybodaeth ymlaen i ddarparu rhai canlyniadau cyraeddadwy, derbyniodd prosiectau cymunedol gyllid drwy'r gronfa ffyniant a rennir.

'Mae cefnogaeth Medrwn Môn wedi bod yn drawsnewidiol i ni fel cymuned. Trwy'r prosiect ffilm a'r gwaith cynllunio lle, rydym wedi gallu cysylltu â thrigolion mewn ffordd ddyfnach, fwy ystyrlon - yn enwedig y rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed fel arfer. Mae wedi ein helpu i nodi anghenion gwirioneddol a gyrru ymlaen atebion ymarferol sy'n cael eu harwain gan bobl fel gwasanaethau ieuenctid, mynediad iechyd, a mynd i'r afael â rhwystrau trafnidiaeth. Yn bwysicaf oll, mae'n rhoi hyder i'r gymuned bod newid yn bosibl pan fyddwn ni'n dod at ein gilydd'

Sara, Cadeirydd, Bro Aberffraw.

Mae'r Gynghrair hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau grant Arian i Bawb o £20k gyda Sarah Rawsthorn, Edge Inclusion. Maent wedi dyfeisio blwyddyn o raglen i ddarparu gwyl i blant yn wardiau Bro Aberffraw a Chrigyll.



Rhwydwaith Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

Mynychodd ein Swyddog Cynllunio Lle Anne, y cyfarfod cyntaf gyda chyfranogwyr rhaglen Rhwydweithiau Cymunedol Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau ddiwedd mis Mawrth yn Llanidloes. Daeth y sesiwn â grwpiau cymunedol o rwydweithiau Caerdydd, Ynys Môn, Wrecsam, Cwm Afan a Gwynedd ynghyd i fanteisio ar y cyfleoedd i rannu profiadau, dyheadau a heriau.

Roedd y cyfarfod yn ymarfer gwerthfawr o ran rhannu gwybodaeth am ein rhaglen Cynllunio Lle ac am glywed sut mae cymunedau eraill yn mesur effaith datblygiad seiliedig ar le wrth greu cymunedau gwydn a dyfeisgar.

I ddechrau bydd y rhwydwaith yn edrych ar rannu arferion ar wydnwch newid hinsawdd, mesur effaith a chyfathrebu lleol



Hyfforddiant Sgyrsiau Craidd



Fe wnaeth 14 o grwpiau a sefydliadau lleol elwa o hyfforddiant a fydd yn eu helpu yn eu gwaith o ddydd i ddydd!

Cawsom gwpl o ddiwrnodau gwyh yn cynnal yr hyfforddiant Sgyrsiau Craidd gyda Basis! Mae'r hyfforddiant hwn yn helpu pobl i ddatblygu sgiliau i adeiladu ymddiriedaeth, deall heriau, a chreu atebion - gwella sgiliau cyfathrebu i unrhyw un sy'n cefnogi pobl trwy sefyllfaoedd cymhleth.



Dyfyniad cyfranogwr - *"Doeddwn i ddim yn meddwl bod angen help arnaf i gael sgyrsiau craidd gyda phobl gan fy mod wedi gweithio gyda phobl ar hyd fy oes, ond roedd yr hyfforddiant hwn yn agoriad llygad go iawn ac yn gwneud i mi feddwl sut y gallwn wella'r sgyrsiau sydd gen i gyda phobl i'w wneud yn fwy ystyrlon."*



Bydd Medrwn Môn yn datblygu mwy o gysylltiadau yn ymwneud â sgyrsiau craidd, cadwch lygad ar ein gwefan/cyfryngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth.

Gweminarau am ddim

Oherwydd llwyddiant hyfforddiant diweddar Medrwn Môn, a'r adborth cadarnhaol a dderbyniwyd, mae Bev Garside - The Female Alchemist wedi llwyddo i gywasgu'r hyfforddiant i mewn i weminarau bitesize sydd bellach ar gael am ddim i aelodau Medrwn Môn.

Mae gennym dri gweminar ar gael:

Llywio newid: Bydd y gweminar hwn yn eich helpu i lywio drwy'r ansicrwydd yn y sector gwirfoddol a chroesawu'r newid.

Rheoli Risg yn y Sector Gwirfoddol: Mae rheoli risg yn rhywbeth y dylai pob mudiad Trydydd sector ei wneud, y cynharaf y byddwch yn nodi risg, y mwyaf o opsiynau sydd gennych i'w reoli.

Recriwtio a Chadw yn y Sector Gwirfoddol: Mae'r sector gwirfoddol yn wynebu llawer o heriau, ond mae sawl mater y gallwch eu rheoli.

THE FEMALE ALCHEMIST



Edrychwch ar y gweminarau rhad ac am ddim [YMA](#)

"Fe wnaeth y gweminar i mi feddwl beth rydyn ni'n ei wneud fel sefydliad, a sut gallwn ni ddefnyddio'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu i wella pethau i ni a'n defnyddwyr."

Defnyddio Tech i Wella Lles

Ym mis Chwefror a mis Mawrth, aeth Medrwn Môn ar y ffordd ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau galw heibio Technoleg mewn Gofal, gan ddod ag wynebau cyfeillgar, gwybodaeth ddigidol a thechnoleg ryngweithiol i bum cymuned ledled Ynys Môn—Amlwch, Bodorgan, Llangefni, Llanfairpwll a Chaergybi.

Wedi'u cynllunio i helpu pobl i deimlo'n fwy hyderus gyda thechnoleg ac yn gysylltiedig â chefnogaeth leol, croesawodd y digwyddiadau dros 40 o fynychwyr. Dim apwyntiadau, dim pwysau - dim ond croeso cynnes a chyfle i archwilio sut y gall technoleg wneud bywyd bob dydd ychydig yn haws.

Roedd pob sesiwn yn cynnig cymorth ymarferol a sgysiau hamddenol, gonest. P'un ai i ddysgu sut i wneud galwad fideo i gadw mewn cysylltiad â'r teulu, archwilio sut y gallai smartwatch helpu i dracio ffitrwydd, neu i ddarganfod sut y gallai dyfais fel Alexa wneud bywyd yn y cartref yn haws, roedd ein tîm yno i arwain pobl bob cam o'r ffordd.

Ac mae effaith y prosiect ehangach yn siarad cyfrolau - edrychwch ar rai o ganfyddiadau ein hadroddiad Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) diweddaraf:

📱 Derbyniodd 30 o unigolion gefnogaeth un-i-un gyda thechnoleg - gan helpu llawer i fynd ar-lein am y tro cyntaf erioed.

🧠 Dywedodd 71% fod eu llesiant meddwl wedi gwella, ac roedd 86% yn teimlo'n fwy annibynnol ar ôl defnyddio eu dyfeisiau.

👨👩 Cefnogwyd 16 o ofalwyr di-dâl hefyd - gan ddefnyddio technoleg i leddfu straen, cysylltu â chymorth, a hyd yn oed olrhain diogelwch anwyliaid sy'n byw gyda dementia.

🏠 Darparwyd dyfeisiau Mi-Fi i bedwar grŵp cymunedol, i'w galluogi i gynnig cyrsiau digidol a gweithgareddau cymdeithasol - gan roi budd i 65 o bobl yn eu hardaloedd lleol.

Cafodd pobl gyfle hefyd i gofrestru ar gyfer Linc Cymunedol Môn a chael cymorth parhaus i'w helpu i weithio tuag at eu nodau llesiant - boed hynny'n aros yn annibynnol, yn magu hyder gydag offer digidol, yn dod yn fwy egniol neu'n cysylltu â phobl leol.



💬 ***Doeddwn i ddim yn siŵr beth i'w ddisgwyl, ond rydw i mor falch fy mod wedi dod. Roedd pawb mor barod i helpu.***

💬 ***"Mae wedi bod yn wych - rydw i wedi dysgu cymaint ac yn teimlo'n fwy hyderus yn barod."***



BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD



DWEUD EICH DWEUD!



Pa ymgynghoriadau sy'n digwydd yn eich ardal chi?

Gosod Rhenti Cyngor Sir Ynys Môn 2025 i 2026

Mae Gwasanaethau Tai Môn wedi profi pa mor fforddiadwy yw'r rhenti a'r taliadau gwasanaeth rydym yn godi ac rydym yn hynod o falch o gyhoeddi bod pob un wedi pasio y meini prawf fforddiadwy.

Rydym yn awyddus i gael eich barn.

Rydym yn awyddus iawn i gael eich barn ar hyn ac ar y gwasanaethau rydych yn eu derbyn gan Gwasanaethau Tai Môn trwy cwblhau'r holiadur hwn.

<https://www.smartsurvey.co.uk/s/7YIY6A/>

Ar ddiwedd yr holiadur, byddwn yn gofyn i chi gadarnhau eich manylion cyswllt os hoffwch gymryd rhan yn ein gwobr raffl!



Arolwg gofal Dementia

Allwch chi helpu i wella gofal Dementia ar Ynys Môn trwy roi eich adborth i Dementia Actif Môn yn yr arolwg byr yma.

Mae'r arolwg wedi'i greu gan Gyngor Sir Ddinbych ac mae'n cwmpasu gogledd Cymru gyfan.

Mae dolen i'r hysbysiad preifatrwydd yn yr arolwg.

<https://www.anglesey.gov.wales/en/Have-your-say/Consultations/Current-consultations/Dementia-care-survey.aspx>

Ariennir Cynllun Dementia Actif Môn gan Gyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru, trwy Gronfa Gofal Integredig Rhanbarthol Cymru.

Mae Dementia Actif Môn yn helpu pobl sy'n byw gyda dementia. Mae hyn yn cynnwys teulu a gofalwyr. Mae'r cynllun yn rhoi mynediad i raglenni ymarfer corff dan oruchwyliaeth o ansawdd uchel sy'n helpu i wella iechyd a lles.

Mae'r ymarferion yn hwyl ac yn rhoi boddhad. Gallant ddod yn rhan o fywyd bob dydd.

I gael rhagor o wybodaeth, â'r broses atgyfeirio cysylltwch 01248 752957

Dementiaactifmon@ynysmon.llyw.cymru



Gall sefydliadau gwirfoddol elwa o bryniannau ynni swmp?



Gan weithio gyda Utility Aid mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn casglu mewnwelediadau ar ddefnydd ynni'r sector gwirfoddol, gan archwilio potensial ein pŵer prynu ar y cyd a helpu sefydliadau i leihau costau rhedeg. Amcangyfrifir bod [traean o elusennau lleol yn y DU gweld costau cyfleustodau yn codi dros 60%](#).

Ynghyd â CGGC, mae Utility Aid wedi lansio arolwg i ddarganfod beth ellir ei wneud i helpu mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i leihau eu costau rhedeg a dod yn wyrddach.

PAM CYMRYD RHAN?

Drwy gwblhau'r arolwg byddwch yn helpu i ddarparu mewnwelediad mawr ei angen i Utility Aid i lansio cynllun prynu ar y cyd sy'n addas ar gyfer y sector gwirfoddol. Bydd hefyd yn grymuso arweinwyr elusennau i wneud y penderfyniadau cywir wrth brynu ynni glân a gynhyrchir yn foesebol.

Cwblhewch yr arolwg yma

Llywodraeth Cymru yn gosod gweledigaeth newydd ar gyfer Gwirfoddoli

WcVA
CGGC

Cymerwch 10 munud i gwblhau'r arolwg hwn i ddweud eich dweud ar ddyfodol Gwirfoddoli yng Nghymru. Gall unrhyw un gwblhau'r arolwg, nid oes rhaid i chi fod yn wirfoddolwr nac yn rhywun sy'n cefnogi gwirfoddolwyr yn uniongyrchol.

Mae Llywodraeth Cymru a CGGC yn cyd-greu dull newydd o wirfoddoli yng Nghymru, gyda Gweledigaeth flaengar i'w lywio. Rydym yn gweld gwirfoddoli fel rhywbeth sydd o fudd nid yn unig i'r rhai sy'n cael cymorth, ond hefyd i'r gwirfoddolwyr eu hunain a'r gymuned a'r gymdeithas ehangach. Ein gweledigaeth yw bod gwirfoddoli yn dod yn gryfach fyth fel rhan o'n hunaniaeth a'n diwylliant yng Nghymru. Ein nod yw lledaenu ymwybyddiaeth o'i werth a phwysigrwydd ei fanteision amrywiol, a thrwy hynny gryfhau effaith gwirfoddoli yn y dyfodol ym mhob maes gweithgaredd.

Fel rhan o'r broses cyd-greu, rydym am brofi lefel y gefnogaeth i'r datganiad gweledigaeth a helpu i'w wella a'i fireinio. Mae arolwg byr wedi'i ddatblygu sy'n rhoi cyfle i chi rannu eich barn ar y weledigaeth.

Gobeithiwn y bydd cynrychiolwyr o'ch sefydliad yn cwblhau'r arolwg a hefyd yn gofyn a fydddech yn rhannu'r cyswllt â'ch aelodau, rhwydweithiau a buddiolwyr, fel y gallwn ymgynghori mor eang â phosibl. Bydd yr arolwg ar agor tan ddiwedd mis Mai 2025.

Hysbysu Maniffesto Cymunedau ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026

Cyn etholiadau'r Senedd y flwyddyn nesaf, mae Medrwn Môn yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau i ddatblygu maniffesto ar gyfer newid yn seiliedig ar uchelgeisiau ac anghenion grwpiau cymunedol ar draws yr Ynys. Gyda'n gilydd byddwn yn cynnal gweithdy byr ar flaenoriaethau maniffesto ar gyfer grwpiau cymunedol lleol, gyda'r bwriad o gynhyrchu adborth y gellir ei ddefnyddio ar gyfer gwaith dylanwadu cenedlaethol a lleol.

Bydd y gweithdy yn agored i sefydliadau cymunedol a bydd yn rhoi cipolwg ar brofiadau a safbwyntiau sefydliadau cymunedol ym mhob ardal. Byddant yn gyfle i chi rannu eich profiadau a'ch barn am sut y gall llywodraeth weithio'n well i chi a'ch sefydliad – ac i gyfrannu at faniffesto cenedlaethol.

O brofiadau'r gorffennol bydd y trafodaethau hefyd yn ddiddorol!

Cynhelir y gweithdy **ddydd Mawrth 3 Mehefin 10am-1pm** yn ein swyddfeydd yn y Canolfan Busnes Ynys Môn. Os hoffech ddod draw cysylltwch â ni ar Ysgwrs@medrwnmon.org

Pob dymuniad da i Hywel yn ei ymddeoliad!

Hoffai Medrwn Môn ddymuno'r gorau i Hywel Lovgreen, Swyddog Cyllido gyda'r Loteri Genedlaethol wrth iddo ymddeol ddiwedd mis Ebrill ar ôl gweithio gyda nhw am dros 25 mlynedd. Mae Hywel wedi bod yn allweddol wrth gefnogi nifer o grwpiau ar Ynys Môn i wneud ceisiadau llwyddiannus i'r Loteri Genedlaethol am gyllid o raglenni Arian i Bawb a Phawb a'i Le.



Mae Hywel hefyd wedi cynnal nifer o gymorthfeydd ariannu gyda'n Swyddog Cyllid a Gwybodaeth Derlwyn Hughes, ble mae wedi cyfarfod â grwpiau wyneb yn wyneb, gan gynnig adborth a chynghor ar eu cynigion ariannu.

Dywedodd y Prif Swyddog Lyndsey Campbell-Williams “**Mae cefnogaeth Hywel i brosiectau ar Ynys Môn wedi bod yn ddiwyro ac fel Sefydliad hoffai Medrwn Môn estyn diolch arbennig am ei ymrwymiad i godi proffil ein prosiectau Cynllunio Lle a Linc Cymunedol Môn. Bydd colled ar ei ôl ond gobeithio y bydd yn mwynhau ei amser rhydd yn ymweld â'r Ynys o dro i dro**”

Newyddion Trydydd Sector

Mirili Môn wedi bod yn brysur eto!

Mae Pam a'r gwirfoddolwyr wedi bod yn brysur yn Mirili Môn yng Nghaergybi, yn parhau gyda'u gweithgareddau difyr a rhyngweithiol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, sy'n cynnwys prosiectau 'Bleak to Chic', crefftio, ac ymarferion cadair.

Mae Mirili Môn wedi bod yn helpu grwpiau gwirfoddol eraill ar yr ynys, mae nhw wedi gwneud Tai Draenog ar gyfer Achub Draenogod Môn yn ddiweddar. Dywedodd Pam: **"mae'n dda helpu grwpiau eraill ac mae'n rhoi synnwyr o bwrpas a boddhad i'n haelodau MIRILI eu bod yn cyfrannu at eu cymuned"**

Mae gwirfoddolwyr Mirili Môn wedi trefnu i'r grŵp gael cinio bob pythefnos am 8 wythnos fel treial ac i geisio annog y 'profiad amser bwyd'. Nid yw llawer o'r grŵp, hyd yn oed y rhai sydd â phartneriaid yn bwyta, ac er ein bod yn sylweddoli efallai na fydd bob pythefnos yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran maeth, y gallai annog a hyrwyddo pwysigrwydd prydau rheolaidd, bydd y prydau a gynigir hefyd yn atgoffa rhywun o'r prydau y maent yn eu bwyta pan oeddent yn iau. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant hyd yn hyn gyda llawer o bobl yn mwynhau bwyd maethlon gyda chwmni da.

Y llynedd dechreuodd Mirili Môn brosiect a ysbrydolwyd gan bobl leol sy'n byw gyda dementia. Roedd y prosiect yn cynnwys gwneud pob un o'r 5 tref yn 'Ymwybodol o Ddementia, Dementia cynhwysol'.


Roedd yr ymateb yn aruthrol, ac mae 120 o siopau a busnesau bellach yn arddangos y logo dwyieithog hwn yn eu ffenestri.

Maent wedi ymrwymo i wneud Ynys Môn yn gynhwysol o ddementia, felly eleni, maent yn parhau â'u hymgais ac yn ychwanegu pentrefi Ynys Môn at eu portffolio.

Elfen newydd i Mirili Môn yw eu gweithdai MISunderstanding Dementia. Mae'r gweithdai wedi'u cynllunio i helpu unrhyw un sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd, gofalwyr a darparwyr gwasanaethau.

Mae'r gweithdai'n cynnwys:

- Gweithgareddau, datrys problemau a gwaith grŵp rhyngweithiol
- Beth yw Dementia
- Iaith dementia
- Cael diagnosis dementia
- Fi yw fi o hyd!
- Ynys Môn sy'n gynhwysol o ddementia
- Y profiad byw



Cael trafferth gyda Chynaliadwyedd?

Mae Ymddiriedolaeth Cranfield yn cynnig ystod eang o wasanaethau rhad ac am ddim o safon sydd ar gael i elusennau cofrestredig sydd â ffocws lles cymdeithasol, a CIC a CIO yn gweithio tuag at ganlyniadau lles cymdeithasol.

Mae Ymddiriedolaeth Cranfield yn galluogi sefydliadau i gael mynediad at amrywiaeth o ymgynghorwyr gwirfoddol sy'n dod â blynyddoedd o arbenigedd a phrofiad o'r sector masnachol ac elusennol gyda nhw i weithio gyda'r tîm arwain i wella eu cynaliadwyedd. Bydd yr ymgynghorwyr yn gweithio i friff cytunedig y mae'r sefydliad yn ei ddatblygu er mwyn cynhyrchu adroddiad gwaelodlin yn erbyn 4 maes allweddol: Arweinyddiaeth a Chyfeiriad Strategol, Rheoli Pobl, Rheolaeth Ariannol a Chynaliadwyedd a Pherfformiad ac Effaith. Yn ogystal â phrosiectau ymgynghorwyr, mae Ymddiriedolaeth Cranfield yn cynnig mynediad at fentora ar gyfer arweinwyr elusennau gan gynnwys cadeiryddion, gan eu paru â mentor gwirfoddol. Yn ogystal â hyn maent hefyd yn cynnig mentora rhwng cymheiriaid wedi'i hwyluso, sef rhaglen 3 wythnos ar-lein a drefnir yn ganolog i alluogi arweinwyr o bob rhan o'r DU i drafod a rhannu heriau a dod o hyd i atebion.

Gall sefydliadau sy'n cyfateb i feini prawf craidd yr Ymddiriedolaeth gael mynediad at y gwasanaeth ar alwad ac mae'n cynnig cyngor ar unwaith.

Mae gwefan Ymddiriedolaeth Cranfield hefyd yn cynnig mynediad i ystod eang iawn o offer busnes defnyddiol iawn gan gynnwys templedi cynllunio busnes a rheolaeth ariannol a gweminarau, i'w harchebu i gymryd rhan mewn digwyddiadau byw ac i weld digwyddiadau sydd wedi'u harchifo.

I gael gwybod mwy ewch i <https://www.cranfieldtrust.org/> neu cysylltwch â Nicola.Russell-Brooks@Cranfieldtrust.org neu ffoniwch 07539170002 am sgwrs sydyn.

CYNHADLEDD CTA 2025

Ffynnu, nid yn unig goroesi!

Mae'r sector Trafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru yn parhau i dyfu ac arloesi i ateb y galw am atebion trafndiaeth cynhwysol a hygyrch a arweinir gan y gymuned sy'n diwallu anghenion pobl. Mae'n bleser gan y CTA gynnal eu Cynhadledd Cymru flynyddol ddydd Mercher 21 Mai yn Venue Cymru yn Llandudno.

Yn gynwysedig yn y diwrnod bydd mewnwelediadau gan yr Athro Charles Musselwhite (Prifysgol Aberystwyth) ar rôl Trafnidiaeth Gymunedol wrth greu cymunedau bywiog, Sion Wyn Evans ar waith Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn i nodi heriau a blaenoriaethau trafndiaeth yng Nghymru, a Lee Robinson (Trafndiaeth i Gymru) ar ddyfodol trafndiaeth gyhoeddus a chyfleoedd posibl ar gyfer Trafnidiaeth Gymunedol. Mae Prif Swyddog Medrwn Môn, Lyndsey Campbell - Williams hefyd wedi cael gwahoddiad fel siaradwr gwadd. Bydd Gweithredwyr a rhanddeiliaid yn rhannu syniadau ac arfer da o gwmpas: ymchwil dinasyddion i nodi anghenion trafndiaeth lleol; partneriaith rhwng sefydliadau cymunedol ac awdurdodau lleol; trafndiaeth ar gyfer ieuchyd; a'r defnydd o e-feiciau i ymestyn darpariaeth cludiant cymunedol. Bydd Motability yn rhannu mewnwelediadau o'u Rhaglen Grant Trafnidiaeth Gymunedol a grantiau sydd i ddod. I archebu lle ar y digwyddiad cliciwch yma.





Are you a community group, sports club, charity or school looking for funding of up to £1,500?

Book your 1-1 today to learn more about the Tesco Stronger Starts grant, tips on applying and project ideas.

Monday between 9am-6pm, via 'Teams' or by phone.

Ydych chi'n grŵp cymunedol, clwb chwaraeon, elusen neu ysgol sy'n chwilio am gyllid hyd at £1,500?

Archebwch eich 1-1 heddiw i ddysgu mwy am y Tesco 'Stronger Starts', awgrymiadau ar sut i wneud cais a syniadau am brosiectau. Bob dydd Llun rhwng 9am-6pm, drwy 'Teams' neu dros y ffôn.



Am fwy o wybodaeth neu i archebu lle, plis cysylltwch â -

For more information or to book, please contact -
enabler@groundworknorthwales.org.uk

www.tescostrongerstarts.org.uk i wneud cais
www.tescostrongerstarts.org.uk to apply

Newyddion Cyllid



Ymddiriedolaeth Bernard Piggott


Mae Ymddiriedolaeth Bernard Piggott wedi bod yn cefnogi Elusennau Cofrestredig yn ardal Birmingham a Gogledd Cymru ers dros 52 mlynedd.

Mae'r grantiau a roddwyd wedi amrywio o £250 i £5000. Sefydlodd y Capten George Bernard Piggott yr Ymddiriedolaeth ar 25 Tachwedd 1969, gan ddefnyddio'r elw o ddwy siop adwerthu yn Sparkbrook, Birmingham i ddechrau.

Yn anffodus, bu farw ddwy flynedd a hanner yn ddiweddarach ym mis Mai 1972. Ei ddymuniad oedd i'r Ymddiriedolwyr barhau i gefnogi elusennau yng Ngogledd Cymru ac ardal ehangach Birmingham trwy waith yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r ymddiriedolaeth yn ariannu'r categorïau canlynol:

Henoed / Gofal
Ieuenctid / Addysg
Theatr / Celfyddydau
Hanesyddol / Adeiladau
Ffydd/Cymuned
Iechyd / Meddygol / Anabledd
Pobl / Tlodi
Anifeiliaid / Amgylchedd
Dibenion Elusennol Eraill



Gallwch wneud cais am gyllid [yma](#)

Sefydliad Moondance

Mae Sefydliad Moondance yn cynnig grantiau i sefydliadau ac achosion sy'n darparu newidiadau trawsnewidiol mewn cymunedau yng Nghymru.

Mae cyllid ar gael ar gyfer prosiectau sy'n atal neu'n lleddfu tlodi, yn cefnogi lles a lles menywod, plant, yr henoed a'r rhai sy'n agored i niwed yn ein cymdeithas, yn gwella canlyniadau iechyd, yn codi safonau addysgol ac yn diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Moondance yn ceisio bod mor hyblyg â phosibl ac yn cefnogi sefydliadau sy'n cael effaith drawsnewidiol yn eu cymunedau yng Nghymru.

Gallwch wneud cais [yma](#)



Newyddion cyllid



Ydych chi'n grŵp cymunedol ar lawr gwlad gydag adeilad neu ofod sydd angen ei atgyweirio neu ei adnewyddu?

Heddiw, rydym yn gyffrous i rannu manylion ein Cronfa Mannau Cymunedol Lleol newydd, sy'n agor ar gyfer ceisiadau ddydd Mercher 7 Mai.

Bydd ein Cronfa Mannau Cymunedol Lleol yn darparu hyd at £1.25miliwn o gyllid i gefnogi mannau cymunedol lle gall pobl ddod at ei gilydd, cysylltu a chymryd rhan mewn gweithgareddau a gwasanaethau lleol.

Gwyddom y gall mannau cymunedol hygyrch fod yn achubiaeth i bobl leol, ond mae angen cyllid ar lawer o grwpiau i atgyweirio, adnewyddu a datblygu'r mannau hyn er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau hanfodol.

Trwy ein Cronfa Mannau Cymunedol Lleol newydd, ein nod yw gwella cyfleusterau cymunedol i ddod â phobl leol ynghyd, mynd i'r afael ag unigrwydd, a hybu llesiant trwy greu mannau diogel a chynhwysol i bawb eu defnyddio a'u mwynhau.

Darllenwch y meini prawf i weld a allai eich grŵp fod yn gymwys a dechreuwch gynllunio'ch cais; <https://lnkd.in/esHpr92d>

YMDDIRIEDOLAETH FORD PRYDAIN



Gweithio gyda'n cymunedau lleol i hau hadau er mwyn newid.

Rydym wedi ymrwmo i gefnogi'r cymunedau yr ydym yn gweithio ac yn byw ynddynt. Dyna pam y gwnaethom greu Ymddiriedolaeth Ford Britain. Ers mis Ebrill 1975 rydym wedi gallu helpu i ariannu addysg a datblygiad ein cymdogion.

Rydym yn rhoi sylw arbennig i brosiectau sy'n canolbwyntio ar addysg, yr amgylchedd, plant, yr anabl, gweithgareddau ieuenctid a phrosiectau sy'n darparu buddion clir i'r cymunedau lleol sy'n agos at ein lleoliadau yn y DU. Mae Ymddiriedolaeth Ford Britain yn annog yn arbennig geisiadau a gefnogir gan weithwyr Ford, ond mae'n agored i bawb, ar yr amod bod y sefydliadau cymwys yn bodloni ein meini prawf dethol.

Mae gennym bum cylch bob blwyddyn ar gyfer rhoddion grant.

Croesewir ceisiadau am grantiau bach, hyd at £250, deirgwaith y flwyddyn yn ystod:

1 Ebrill i 30 Mehefin i'w hadolygu ym mis Gorffennaf

1 Awst i 31 Hydref i'w hadolygu ym mis Tachwedd

1 Rhagfyr i 28 Chwefror i'w hadolygu ym mis Ebrill

Croesewir ceisiadau grant mawr, hyd at £3,000, ddwywaith y flwyddyn yn ystod:

1 Mawrth i 31 Gorffennaf i'w hadolygu gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr ym mis Medi/Hydref

1 Medi i 31 Ionawr i'w hadolygu gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr ym mis Mawrth

Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod am y canlyniad yn dilyn yr adolygiad.

<https://www.ford.co.uk/experience-ford/news/ford-britain-trust>

Y Loteri Genedlaethol

Gronfa Cymunedol



CRONFA
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND

Gall ein tîm helpu grwpiau gwirfoddol a chymunedol trwy ysgrifennu polisïau, strategaethau a gallant gynorthwyo wrth i chi gyflwyno cais grant cryf. Gweler isod y prosiectau sydd wedi derbyn cyllid gan y Loteri Genedlaethol yn ddiweddar.

- **Hyb leuenctid Cybi £289,302.00:** Mae'r grant wedi'i ddefnyddio i greu gofod diogel i bobl ifanc Caergybi gael mynediad i weithgareddau, gwasanaethau cymorth/allgymorth a digwyddiadau i ailadeiladu rhwydweithiau cymdeithasol a datblygu gwytnwch.
- **Bwyd Da Môn £46,042.00:** Mae'r grant wedi'i ddefnyddio i gyflogi gyrrwr rhan amser penodedig i gasglu mwy o fwyd dros ben o siopau, gan sicrhau nad oes unrhyw fwyd bwyriadwy yn mynd yn wastraff.
- **Neuadd Bentref Llanddona £10,000.00:** Mae'r grant wedi'i ddefnyddio i adnewyddu ffenestri, drysau a goleuadau, gan wneud yr adeilad yn fwy cyfforddus a chynnes i ddefnyddwyr ac yn fwy ynni effeithlon.
- **Grŵp Natur Seiriol CBS £19,334.00:** Defnyddiwyd y grant i uwchsgilio gwirfoddolwyr i gynnal tair Gwarchodfa Natur Leol, er budd y gymuned gyfan.

Cysylltwch â Medrwn Môn 01248 724944 /
post@medrwnmon.org os oes angen unrhyw
gyngor, neu arweiniad arnoch wrth nodi a
gwneud cais am arian.



RHWYDWAITH GWIRFODDOLI SIR FÔN



*Galwch heibio i gwrdd
â grwpiau gwirfoddol
lleol a
sefydliadau!*



🕒 9.30am - 4.00pm

📅 Mawrth 6ed o Fai 2025

📍 Neuadd y Dref, Llangefni

- Dysgwch sgiliau newydd a gwella eich CV
- Ymunwch â grŵp newydd o bobl o'r un anian
- Gwnewch wahaniaeth
- Gwybodaeth am hyfforddiant
- Clywed straeon bywyd go iawn



Am fwy o
wybodaeth:



01248 724944



post@medrwnmon.org

Room to Reward: Cydnabod Arwyr Cudd bob dydd, mae gwirfoddolwyr ledled y DU yn rhoi eu hamser i gefnogi eu cymunedau. Crëwyd Room to Reward i roi yn ôl i'r unigolion anhunanol hyn, gan gynnig seibiant haeddiannol iddynt mewn gwestai. Trwy bartneru â gwestai ledled y wlad, mae Room to Reward yn darparu arhosiad am ddim fel ffordd o ddweud 'diolch' i'r rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r disgwyl.

Os ydych chi'n adnabod gwirfoddolwr sy'n haeddu cydnabyddiaeth, gallwch eu henwebu ar gyfer arhosiad arbennig! Ewch i www.roomtoreward.org i ddysgu mwy.



Ym Medrwn Môn, rydym yn hynod ffodus i gael tri gyrrwr gwirfoddol anhygoel yn partneru â ni trwy Car Linc. Mae'r gwirfoddolwyr ymroddedig hyn yn cynorthwyo'n hael trwy yrru unigolion o amgylch y gymuned, eu helpu i fynychu apwyntiadau, rhedeg negeseuon, a mynd i siopa.

Estynnodd Stacey allan i Room to Rewards, a buont yn garedig iawn yn cynnig ystafelloedd am ddim i'r gwirfoddolwyr. Yn y llun uchod gyda'n Swyddog Gwirfoddoli, Gemma, mae Paul, un o'n gyrrwyr gwirfoddol hirsefydlog, sydd wedi bod gyda ni ers 2 flynedd. Mae wedi penderfynu defnyddio'r cyfle hwn i fwynhau taith gyda'i wraig, gan aros yn The Dilly yn Llundain.

Er mwyn sicrhau ei ystafell yn Room for Rewards, cynhwysodd Stacey y datganiad canlynol am Paul; 'Ers ymuno ym mis Medi 2023, mae Paul wedi cofleidio ei rôl yn wirioneddol, gan rannu ei brofiadau cadarnhaol yn gyson. Mae'n annog eraill yn angerddol i ddod yn Yrwyrr Gwirfoddol, gan amlygu'r cyfle gwerth chweil i wneud gwahaniaeth ystyrlon yn y gymuned.

“Mae diolchgarwch a llawenydd yr holl deithwyr yn dod â boddhad aruthrol. Mae'r sgysiau, y chwerthin, a'r cysylltiadau a ffurfiwyd ar bob taith yn rhoi boddhad mawr i'r profiad.”

Cyfleoedd gwirfoddoli



TYFU EICH HUN YN IACH

Mae garddio rhadri yn rhoi boddhad mawr ac yn gwneud lles i chi. Mae llawer o fanteision cydnabyddedig:-



Os hoffwch chi ddarganfydd mwy am wirfoddoli ar ein rhadri cymunedol, cyswlltwch â:
beaumarisallotmentsociety@outlook.com

Macular Society

Recruiwio Gwirfoddolwyr

Gall eich amser newid bywydau. Gwirfoddolwch nawr!

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu gyda'r grŵp Maculaidd yn Llangedaf!

Hafan Cofni, Llangedaf, LL77 7JA

Bydd grŵp yn cael ei gynnal bob 2il dydd Mawrth o bob mis.

Cyswlltwch â Gemma am ragor o wybodaeth.

Gemma@medrwnmon.org
01248 724944

Rydym yn chwilio am rywun i:

- Paratoi ysgogadau (te, coffi a bisgedi) ar gyfer aelodau'r grŵp yn ystod y sesiynau.
- Croesawu a chefnogi aelodau'r grŵp i gael mynediad i'r adeilad a sicrhau eu bod yn gyfforddus yn y lleoliad.

<https://www.medrwnmon.org/>

Car Linc Môn

MWY NA CHLUDIANT CYMUNEDOL • MORE THAN COMMUNITY TRANSPORT

Apêl Gwirfoddolwyr ar gyfer Cynllun Tro Da Ynys Cybi a'r Fali (YC&VGTS)

Rydym yn estyn allan i ofyn am eich cefnogaeth i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein cymuned drwy wirfoddoli ar gyfer ein Cynllun YC&VGTS. Nod y fenter hon yw helpu'r rhai sydd mewn angen, boed hynny drwy weithredoedd syml o garedigrwydd neu gynorthwyo aelodau bregus o'n cymuned.

Mae'r YC&VGTS yn ymwneud â chynniig llaw gefnogol lle mae ei hangen fwyaf – boed hynny'n helpu cymedogion hŷn gyda'u siopa, bod yn ffrind iddynt, neu estyn llaw i unigolion sy'n cael trafferth ymdopi.

Yr hyn rydym yn chwilio amdano: Rydym angen gwirfoddolwyr tosturiol a dibynadwy sy'n barod i roi ychydig o'u hamser i wneud gwahaniaeth mawr i ddwrmod rhywun arall. Mae croeso i wirfoddolwyr o bob oedran – p'un a oes gennych lawer o amser neu ychydig bach, mae pob eiliad yn cyfrif. P'un a ydych yn helpu unwaith yr wythnos neu unwaith y mis, bydd eich caredigrwydd yn gwneud byd o wahaniaeth.

Sut gallwch helpu:

- Dosbarthu nwyddau a chyflenwadau hanfodol i'r rhai na allant fynd allan.
- Cynniig cefnogaeth i unigolion sydd wedi'u hynysu neu'n teimlo'n unig.
- Bod yn gyfaill – ymweliadau wythnosol neu gadw mewn cysylltiad dros y flôn.
- Darparu trafnidiaeth ar gyfer apwyntiadau meddygol neu gymdeithasol.

Pam gwirfoddoli?

Nid yn unig y bydd gwirfoddoli gyda'r YC&VGTS yn helpu eraill, ond mae hefyd yn rhoi cyflie i chi roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned, cwrdd â phobl newydd, ac ymuno â newid cadarnhaol. Mae'n ffordd syml ond effeithiol o wneud gwahaniaeth.

Gobeithiwn y byddwch yn ystyried rhoi rhywfaint o'ch amser i'r achos teilwng hwn. Mae eich cyfraniad yn cael ei werthfawrogi'n fwy nag y gall geiriau ddweud!

Os ydych yn barod i gymryd rhan neu angen rhagor o wybodaeth, ffoniwch ni ar 01407 763553 neu anfonwch e-bost at veronica@morlo.co.uk

GORUCHWYLLWYR GWIRFODDOL VOLUNTEER INVIGILATORS

YMUNWCH Â NI! JOIN US!

Rydym yn chwilio am oruchwylwyr gwirfoddol sy'n dymuno rhannu eu gwybodaeth a'u brwdfrydedd gyda'n hymwelwyr er mwyn eu cynorthwyo i fwynhau ein harddangosfeydd a gwneud y gorau o'u hymwelïad.

We are looking for invigilation volunteers who want to share their knowledge and enthusiasm with our visitors to help them enjoy our exhibitions and get the most from their visit.

Os oes gennych ddiddordeb, neu os ydych am ddarganfydd mwy, cyswlltwch â ni ar:
orielynysmon@ynysmon.llyw.cymru

If you are interested, or would like to find out more, please do get in touch with us at:
orielynysmon@ynysmon.llyw.cymru

www.orielmon.org 01248 724444 Oriol Môn, Rhosmeirch, Llangedaf

CLWB PORTH CAERGYBI CROESO I WIRFODDOLWYR NEWYDD

Mae ein clwb yn glwb cymdeithasol cyfeillgar iawn i oedolion ag anghenion arbennig ac anawsterau dysgu. Rydym yn cyfarfod bob pythefnos ar ddydd Sadwrn o 10yb tan hanner dydd yng Nghanolfan Gwelfor Caergybi.

Rydym ar hyn o bryd yn chwilio am wirfoddolwyr a fyddai â diddordeb mewn cynorthwyo mewn gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys celf a chrefft, chwarae pŵl, gemau bwrdd a helpu yn y bar coffi. Rydym ni'n chwarae bingo cwpl o weithiau'r flwyddyn.

Byddai'n rhaid i unrhyw un sydd â diddordeb gwblhau cais Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae hyn yn syml iawn a byddwn yn eich helpu i'w gwblhau.

Cyswlltwch â Maureen Jones ar 07952 336 858

Be sydd ymlaen?


Gwahodir i chi i
**BARTI
COEDWIG**
LLE:
COEDWIG CYMUNEDOL
LLYN PARC MAWR
MAI 10FED
11.00-3.00
STONDINAU, LLUNIAETH, GWEITHGAREDDAU
COETIR I BAWB.
MAE PARCIO WEDI'I GYFYNGU, CERDDED, BEICIO, RHANNU LIFFT
NEU DDEFNYDDIO BWS RHIF 42.DIOLCH. 

GRWP CEFNOGI I RIENI A GOFALWYR PLANT AG ANGHENION YCHWANEGOL YNYS MÔN

10.00 - 12.00
Canolfan Glanhwfa, Llangefni
Dydd Mercher cyntaf o'r mis

2 Ebrill
7 Mai
4 Mehefin
2 Gorffennaf

Am fwy o wybodaeth,
cysylltwch â Ella:

0149 330 707

Dewch draw
am banded,
bisged a
sgwrs!



WYTHNOS GWIRFODDOLWYR

2il – 8fed Mehefin

2025

#WythnosGwirfoddolwyr

**HELFA DRYSOR
CEIR!**
CAR TREASURE HUNT!



18/05/2025

Ceir i gychwyn o Dafarn yr
Iorwerth, Bryngwran,
rhwng 2:30 a 3:30.

Cars to start from Tafarn yr
Iorwerth between 2:30 and
3:30.

LLUNIAETH
Bwyd ar gael ar
ddiwedd y daith!
Food available at the end
of the treasure hunt!

£10 y Car
Croeso i bawb!
£10 per car
Everyone
welcome!



Holl Elw at Gronfa Bryngwran
Eisteddfod Môn 2026

Beth sydd ymlaen?

Diddordeb mewn maethu? Ymuno
Maethu Cymru Môn - Maethu Cymru Môn
am sesiwn wybodaeth ar-lein ar

Dydd Iau 22 Mai am 12.00

Cysylltwch ar 01248 752772

<https://ynysmon.fosterwales.gov.wales/cy/cysylltwch>

sesiwn gwybodaeth | online fostering
am faethu ar-lein | information session



maethu cymru | foster wales

TAITH CERDDED Y WAWR YNYS MÔN

DYDD SADWRN 14EG MEHEFIN

HOLYHEAD HOTSPURS, HOLYHEAD
COFRESTRU'N AGOR: 3.30YB



Bydd y llwybr 9km yn bleser i bawb wrth i ni fwynhau canu adar hardd, golygfeydd godidog ac (os bydd y tywydd yn caniatáu!) codiad haul ysbennedd.

Mae cofrestru'n cynnwys:
Crys-t, llunlaeth ysgafn ar hyd y ffordd a bap brecwast a diod boeth ar ôl ei gwblhau yn ôl yn y clwb pêl-droed

WEDDI NODDI GAN



AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â:

© RHIAN.JACOBS@STDAVIDSHOSPICE.ORG.UK

☎ 01492 553159



FREE PARKING

PARCIO DI-DÂL

Charity no: 1159003

SIOE HEN GELFI
Anglesey Ynys Môn

VINTAGE RALLY

17TH & 18TH MAY/MAI 2025
ANGLESEY AGRICULTURAL SHOWGROUND

Peiriannau stêm ~ Lorïau a Bysiau ~ Beiciau modur
Adloniant byw ~ Tractorau ~ Ceir clasurol ~ Reidiau ffair
Stondinau gwerthu ~ Creffttau a modelau
Steam engines ~ Motorcycles ~ Fairground ~ Trade stands
Tractors ~ Live entertainment ~ Commercial vehicles
Classic Cars ~ Models & Crafts

OEDOLION £12.50 ADULTS £12.50
PLANT O DAN 16 AM DDIM!!! UNDER 16's FREE!!!
LL65 4RW
SOME ATTRACTIONS MAY BE SUBJECT TO AVAILABILITY

Ras Gyfnewid Am Oes

Gwynedd a Mon

Dydd Sadwrn 21 Mehefin 2025

Prifysgol Bangor, Trac Athletau Treborth a
chaeau chwarae, Bangor, LL57 2RQ

Amser: Hanner dydd (24 awr)

Cannwyll Gobaith: 22:00-23:00

<https://in.justgiving.events/relay-for-life-gwynedd-and-anglesey2025?currentPage=select-competitio>

Os oes gennych chi ddigwyddiad yr hoffech i ni ei hyrwyddo,
cysylltwch â: post@medrwnmon.org / 01248 724944 neu
cofrestrwch ar www.ConnectAnglesey.Wales

CYSYLLTWCH Â NI



FFONIWCH NI AR: 01248 724944



E-BOST: POST@MEDRWNMON.ORG



FACEBOOK: MEDRWN MÔN



GWEFAN: WWW.MEDRWNMON.ORG